**Adroddiad drafft y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA(4)-10-14**

**CLA380 - Rheoliadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Yn unol â Chyfarwyddydau'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (Cymru) 2014 ("Cyfarwyddydau 2014") y bydd byrddau iechyd lleol yn sefydlu, fel cyd-bwyllgor, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ("y Cyd-bwyllgor").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad, aelodaeth a thrafodion y Cyd-bwyllgor a fydd yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys i fyrddau iechyd lleol yng Nghymru. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd wedi creu Cyfarwyddydau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) (Diwygio) 2014. Effaith ar y cyd y cyfarwyddydau hyn a Chyfarwyddydau 2014 yw dileu'r swyddogaethau cynllunio a symud y ddarpariaeth gwasanaethau ambiwlans brys o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru i'r Cyd-bwyllgor.

**Materion technegol: craffu**

Yn dilyn Rheol Sefydlog 21.2.(v) (bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ystyr) a (vii) (anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg), gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw i'r Rheoliadau hyn.

- Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwysedd person i gael ei benodi fel Cadeirydd y Cyd-bwyllgor.

Mae paragraff 1(5) yn cyfeirio at enghreifftiau pan na fo anghymhwysedd person yn gymwys mwyach. Mae'r paragraff hwn yn cyfeirio at benodiad yn "gadeirydd neu'n swyddog-aelod".

Gofynnir am eglurhad ynghylch a yw'r cyfeiriadau at "swyddog-aelod" yn gywir o ystyried bod rheoliad 5(1), sy'n cyflwyno Atodlen 2, ond yn cyfeirio at gymhwysedd ar gyfer penodi cadeirydd.

- Mae Atodlen 2, paragraff 1(5)(b) yn nodi:-

  *"os caiff person ei ryddhau o fethdaliad, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n* ***aelod*** *ar ddyddiad y rhyddhau";*

Mae testun Cymraeg paragraff 1(5)(b) yn cyfeirio at gymhwysedd person i gael ei benodi'n **aelod** ar y dyddiad rhyddhau, er bod y testun Saesneg yn cyfeirio at gymhwysedd person i gael ei benodi'n gadeirydd neu'n swyddog-aelod.

**Rhinweddau: craffu**

*Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn ar hyn o bryd.*

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**17 Mawrth 2014**